Rhif Cyfeirnod: 456 **Rhif y Fersiwn:**2	**Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:09/2025** **Rhif Cyfeirnod blaenorol yr Ymddiriedolaeth / BILl:** BIP 084

POLISI IECHYD A LLES CYFLOGEION

Datganiad Polisi

Mae BIP Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i fod yn 'Lle Gwych i Hyfforddi, Gweithio a Byw Ynddo', gyda chynhwysiant, lles a datblygu wrth galon popeth a wnawn. Agwedd bwysig ar gyflawni hyn yw hyrwyddo a chynnal iechyd a lles yr holl bobl sy'n sicrhau ein bod yn gallu diwallu anghenion iechyd a gofal ein poblogaeth - ein staff.

Mae ymchwil a thystiolaeth yn dweud wrthym nad yw'n bosibl cael gofal rhagorol heb weithlu sy'n ddiogel ac iach yn gorfforol ac yn seicolegol, ac mae cael gweithwyr iach, wedi'u hymgysylltu a chymhellol yn arwain at amrywiaeth o fuddion gan gynnwys: gwell perfformiad a phrofiad cleifion; mwy o foddhad cleifion; canlyniadau gwell i gleifion; lefelau uwch o ymgysylltu â staff, arloesi a chadw staff; a lefelau is o absenoldeb salwch. Mae'n hanfodol nad yw'r gweithle'n creu rhwystrau rhag bod yn iach ac yn y gwaith, yn hytrach ei fod yn cefnogi ac yn annog ffyrdd o weithio, dewisiadau ffordd o fyw i wella iechyd a lles staff ac yn cynnig cymorth i wneud hyn. Bydd y dull hwn yn galluogi gweithlu medrus, brwdfrydig ac wedi'i ymgysylltu sy'n ymdrechu i wella gofal cleifion.

Ymrwymiad Polisi

Mae'r BIP yn cydnabod bod ei weithwyr wrth wraidd popeth y mae'n ei wneud ac yn rhan annatod o'i lwyddiant. Mae'r BIP wedi ymrwymo i annog a grymuso'r holl staff i gymryd cyfrifoldeb personol am eu dewisiadau ffordd o fyw, iechyd a lles a bydd yn arwain a chefnogi rheolwyr ar eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gefnogi gweithleoedd ac arferion gwaith iach, tra hefyd yn cymryd rhan mewn sgyrsiau effeithiol gydag unigolion a thimau. Mae hefyd yn cydnabod mai cyfrifoldeb y BIP yw darparu gweithle, diwylliant ac amgylchedd sy'n galluogi bod yn iach ac yn iawn yn y gwaith. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn defnyddio nifer o strategaethau, gan gynnwys:

- Gweithredu'r Cynllun Pobl a Diwylliant, gan gynnwys aliniad i Thema 2: Gweithlu Ymroddedig, Brwdfrydig Ac Iach

- Alinio mentrau â blaenoriaethau iechyd cyhoeddus ehangach o gynyddu ymarfer corff, mynd i'r afael â gordewdra, lleihau ysmygu ac yfed gormodol, a gwella iechyd meddwl.

- Codi ymwybyddiaeth a darparu canllawiau ar faterion yn ymwneud ag iechyd a lles, gan gynnwys darparu polisïau a gweithdrefnau effeithiol

- Cynnwys gweithwyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau a newid/trawsnewid rhaglenni a datblygu diwylliant gwaith yn seiliedig ar bartneriaeth

- Trefnu ffyrdd o weithio a phrosesau fel eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles yn hytrach na'u gwaethygu

- Gweithredu arferion da sy'n gwella iechyd gweithwyr drwy wneud y dewisiadau iach yn haws

- Cydnabod bod diwylliant, arferion gwaith ac agwedd at newid mewn sefydliad yn gallu cael effaith ar bobl nad yw bob amser yn ffafriol i'w hiechyd a'u lles, a rhoi pethau ar waith i leihau'r risg y bydd hyn yn digwydd, a lliniaru a datrys pan fydd hyn wedi digwydd

- Datblygu diwylliant lle rhoddir ffocws cyfartal ar iechyd meddwl a lles a herio'r stigma sy'n gysylltiedig â chyflyrau o'r fath

- Lleihau nifer yr achosion o risg yn y gweithle drwy ddull dim goddefgarwch tuag at drais ac ymddygiad ymosodol, gan gynnwys unrhyw fath o wahaniaethu

- Creu amgylchedd sy'n annog gweithwyr i dalu sylw i'w hiechyd a'u lles ac sy'n darparu cyfleoedd a chefnogaeth iddynt gymryd camau i'w gwella

- Hyrwyddo mwy o ddealltwriaeth ynghylch anabledd a niwroamrywiaeth trwy hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth

- Dangos ein hymrwymiad i gynnal y Safonau Iechyd Corfforaethol Aur a Platinwm sy'n sicrhau polisïau, gweithdrefnau, arferion ac ymwybyddiaeth effeithiol yn y gweithle e.e. Gweithdrefn Straen; Gweithdrefn Iechyd Meddwl

- Darparu arweinyddiaeth gyson o'r brig, gan sicrhau bod y sefydliad yn mynd ati i gefnogi dull cadarnhaol o ymdrin ag iechyd a lles gweithwyr drwy ddull arweinyddiaeth dosturiol a chynhwysol

Gweithdrefnau Ategol a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig

Mae'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau ategol yn disgrifio'r canlynol:

- Rôl bwysig y mae'n rhaid i'r BIP ei chwarae wrth wella iechyd, diogelwch a lles gweithwyr

- Y disgwyliad bod pob gweithiwr yn gyfrifol am gynnal a gwella eu hiechyd a'u lles eu hunain

- Y farn bod cam-drin domestig a mathau eraill o drais (gan gynnwys cam-drin emosiynol a seicolegol) yn gwbl annerbyniol ac ni fyddant yn cael eu goddef, a bod

cymorth ar gael i staff sy'n profi cam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol.

- Y cymorth a'r arweiniad a ddarperir ar gyfer rheolwyr a staff wrth nodi a delio gydag achosion o gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol, a'r effaith y maent yn ei chael ar y gweithle.

- Gwybodaeth i gyflogeion a'u rheolwyr i'w galluogi i gefnogi staff sy'n cael eu hadnabod fel rhai sydd â phroblem sy'n gysylltiedig ag alcohol, cyffuriau a/neu sylwedd arall

- Nodi peryglon neu amgylchiadau posibl a allai gyfrannu at lefelau amhriodol o straen sy'n gysylltiedig â gwaith a chynnal asesiadau risg i ddileu neu reoli'r risgiau o straen o'r fath

- Canllawiau ar y broses ar gyfer cyflwyno ac ystyried hawliadau am anafiadau diwydiannol

Dyma ddogfennau ategol eraill i'w darllen ochr yn ochr â'r Polisi hwn:

- Polisi a Gweithdrefn Ddisgyblu
- Gweithdrefn Cam-drin Domestig
- Polisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol
- Gweithdrefn Gweithio Hyblyg
- Safonau Rheoli Straen yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Hawliadau Anafiadau Diwydiannol
- Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith
- Gweithdrefn Rheoli Camddefnyddio Alcohol, Cyffuriau a Sylweddau yn y Gwaith
- Canllawiau Rheoli Straen yn y Gweithle
- Polisi Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol (Diogelwch Personol)
- Polisi'r Menopos
- Polisi codi a chario sylfaenol
- Cynllun Pobl a Diwylliant
- Y Weithdrefn Adleoli
- Polisi Parchu a Datrys
- Canllawiau Cefnogi Iechyd Meddwl Cyflogeion

Cwmpas

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'n holl staff, deiliaid contractau anrhydeddus a gwirfoddolwyr

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac iechyd	Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd (AEGI) wedi'i gwblhau a nodwyd effaith gadarnhaol.
Cymeradwywyd y Polisi gan	Pwyllgor Strategaeth a Chyflawni
Grŵp ag awdurdod i gymeradwyo gweithdrefnau a ysgrifennwyd i egluro sut y bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu	Is-grŵp Polisi Cyflogaeth
Gweithredwr neu Gyfarwyddwr Bwrdd Clinigol Atebol	Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi bod, sicrhewch mai'r fersiwn yr ydych yn ei defnyddio yw'r un mwyaf diweddar naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu Gyfarwyddiaeth Llywodraethu.

Crynodeb o adolygiadau / diwygiadau

Rhif y Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo Adolygiad	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o Ddiwygiadau
1	25/06/2019	09/07/2019	Polisi NEWYDD – yn disodli'r Strategaeth Iechyd a Lles yn y Gwaith flaenorol (UHB 084)
2	27.09.2022		Mwy o bwyslais wedi'i roi ar bwysigrwydd gweithle sy'n ddiogel yn gorfforol ac yn seicolegol ac yn weithle iach. Mwy o bwyslais wedi'i roi ar sut y byddwn yn cefnogi gweithleoedd ac arferion iach gyda'r elfennau canlynol wedi'u hymgorffori: • Ffyrdd o Weithio • Sgyrsiau effeithiol a chyfathrebu dwy ffordd • Diwylliant • Dim goddefgarwch i wahaniaethu a thrais ac ymddygiad ymosodol • Codi ymwybyddiaeth o anabledd a niwroamrywiaeth • Polisïau a gweithdrefnau effeithiol • Agwedd arweinyddiaeth dosturiol